

cynnal

Nid y lleygwyr yn unig sy'n dioddef oherwydd eu hiechyd a'u lles yng Nghymru wrth ddod allan o'r Cloi. Y mae Cynnal yn wasanaeth cyfrinachol i glerigwyr, offeiriaid, gweithwyr eglwysig a'u teuluoedd, fel yr eglura Wynford Ellis Owen, Ymgynghorydd Cwnsela Arbenigol

Yn Ebrill 2015, lanswyd Cynnal gan Stafell Fyw Caerdydd (SFC), i ddelio gyda phob math o broblemau a chymryd agwedd gyfannol a fyddai'n mynd i'r afael â'r rhyngweithio sydd rhwng y meddwl, y corff a'r enaid. Y mae'r gwasanaeth yn cydnabod dimensiwn ysbrydol bywyd ac, os yn addas, yn cyfeirio pobl at arweiniad ysbrydol pellach. Darperir y gwasanaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg ym mhob rhan o Gymru. Yr oedd rhagflaenydd Cynnal, sef CCSW (*The Churches Counselling Service for Wales*) wedi dod i ben oherwydd roedd yn anodd cyfarfod â'r gofyn, rheoli'r gweithlu o wirfoddolwyr, darparu hyfforddiant proffesiynol a chynnig cefnogaeth barhaus. Oherwydd hyn aeth yn amhosibl cynnal y gwasanaeth, er bod y galw a'r angen amdano yno o hyd.

Y mae'r gwasanaeth yn awr yn cynnig gwefan ddwyieithog arbennig, a chynadledau cenedlaethol rheolaidd a drefnir i godi ymwybyddiaeth bellach ac i drafod materion pwysig cyfredol. Y mae Cynnal a'r Stafell Fyw wedi dynodi'r Sul olaf yn Hydref fel Sul Adferiad, a darperir gwasanaethau Cymraeg a Saesneg ar gyfer eglwysi pob enwad yng Nghymru. Mae Cynnal hefyd yn comisiynu gweddïau ddwywaith y flwyddyn - adeg y Pasg a'r Nadolig - ac mae disgwyl mawr amdanynt wrth iddynt gael eu dosbarthu ar hyd a lled Cymru.



Y mae Cynnal yn darparu gwasanaethau mewn canolfannau yng Nghaerdydd, Caerfyrddin, Caernarfon, Bae Colwyn, Wrecsam ac Aberystwyth. Mewn rhai achosion, gallwn ymweld â chleientiaid yn eu cartrefi os yw salwch neu anabledd yn golygu na allant fynychu un o'n lleoliadau perthnasol. Yn ystod cyfnod heriol y pandemig sut bynnag, mae'r sesiynau un-i-un a'r holl grwpiau therapy yn cael eu cynnal ar-lein.

Ar hyn o bryd yr ydym yn cynnig cymorth a chefnogaeth i 110 o gleientiaid yng Nghymru. Y mae'r gofyn yn llawer uwch na'r hyn a ragwelwyd gennym yn wreiddiol. Efallai y dylai'r enwadau holi eu hunain pam fod cynifer o'u gweithwyr Cristnogol a'u teuluoedd yn ceisio cymorth.

Y mae gan Stafell Fyw Caerdydd, a'r cwmni rhiant CAIS, draddodiad o ymarfer da. Yr ydym ni, yn Cynnal, yn cael ein harolygu gan Fwrdd Cyfarwyddwyr CAIS ac y mae ein gwasanaeth yn cadw at eu fframwaith Gwerthuso a Monitro. Y mae ein perfformiad yn cael ei archwilio yn fanwl i sicrhau bod y strategaeth yn cyrraedd y nod ac er mwyn adnabod cyfleoedd i wella perfformiad; yn ogystal, mae Panel Ymgynghorol Cynnal yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i adolygu'r gwasanaeth ac i roi cyngor yn unol â hynny.

I wybod mwy am Cynnal, neu i gefnogi ein gwaith, chwiliwch am www.cynnal.wales <<http://www.cynnal.wales>>. Gallwch gysylltu'n uniongyrchol â mi, tel 0779646045/02920493895; e-bost: wynfordellisowen@cais.org.uk <<mailto:wynfordellisowen@cais.org.uk>>